



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymgynghoriad Pobl Ifanc ynghylch Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru

Beth yw testun yr ymgynghoriad hwn?

Mae'r ymgynghoriad hwn, a luniwyd i fod yn hwylus i bobl ifanc, yn disgrifio ein syniadau o ran Cynllun Cenedlaethol newydd ar gyfer Gofalwyr yng Nghymru.

Rydyn ni am i bob gofalwr barhau i fyw eu bywydau eu hunain ochr yn ochr â'u rôl ofalu, beth bynnag yw eu hoedran, eu hamgylchiadau neu eu cefndir.

Byddwn yn defnyddio'r cynllun terfynol i ddangos sut byddwn ni'n gweithio gydag ystod o bartneriaid i gynnig gwell cefnogaeth ar gyfer pob agwedd ar fywyd gofalwyr.



Pwy sy'n Ofalwr?

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio gofalwr fel un sy'n rhoi gofal di-dâl i oedolyn neu blentyn anabl.

Gallai gofalwr fod yn rhywun sy'n gofalu am ŵr, partner neu wraig; yn rhiant sy'n gofalu am blentyn sydd ag anghenion cymorth a gofal, neu gallai fod yn blentyn neu'n berson ifanc sy'n gofalu am riant, neu frawd neu chwaer (Gofalwyr Ifanc).

Gall y person sy'n cael gofal fod yn ffrind neu'n aelod o'r teulu sy'n methu ymdopi heb gymorth oherwydd salwch, anabledd, problem iechyd meddwl neu gaethiwed.

Mae **gofalwyr ifanc** yn blant neu'n bobl ifanc sy'n brif ofalwr ar gyfer aelod o'r teulu. Mae gofalwyr ifanc yn teimlo nad oes fawr ddim "amser personol", os o gwbl, ganddyn nhw yn aml a gallan nhw golli llawer o rannau pwysig o'u plentyndod oherwydd eu rôl ofalu.

Mae pobl ifanc 18-25 oed yn aml yn cael eu galw'n Oedolion Ifanc sy'n Ofalwyr, ac maen nhw hefyd yn gallu wynebu llawer o heriau ychwanegol.





Rydyn ni am i'r cynllun hwn fod yn gam cyntaf tuag at ddealltwriaeth gyffredin o lefel ac ansawdd y cymorth y dylai gofalwyr ei dderbyn ar wahanol adegau yn eu bywydau. I rai, gallai hynny ddigwydd yn yr ysgol, yn y gwaith, yn eu cymuned leol neu yn y cartref.

Mae cymorth i ofalwyr yn ehangach na iechyd a gofal cymdeithasol, ac mae gofyn bod Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat yn ymateb i hyn mewn modd trefnus.

Rydyn ni am i'r cynllun cenedlaethol hwn ar gyfer gofalwyr herio pawb i ystyried y camau gallan nhw eu cymryd i wella bywydau pob gofalwr o bob oed a chefnidir yng Nghymru.

I gefnogi gofalwyr yng Nghymru, rydyn ni ...

Rydyn ni'n darparu £1.295 miliwn i gefnogi camau sy'n hyrwyddo ein tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr

Mae'r rhain yn cynnwys

- £1 miliwn i'r byrddau iechyd a'u partneriaethau gofalwyr ar gyfer ystod o weithgareddau i gefnogi gofalwyr o bob oed.
- £1 miliwn ar draws pob awdurdod lleol i ddatblygu Cronfa Galedi ar gyfer Gofalwyr, i helpu'r gofalwyr sydd â'r angen mwyaf i gael grant bach i brynu eitemau hanfodol.
- Hyd at £236,000 i ddatblygu **model cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc cenedlaethol**, mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleol ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, a
- £14,000 o gyllid ar gyfer y Rhwydwaith Gofalwyr Ifanc.

Rydyn ni hefyd yn darparu £2.6 miliwn dros dair blynedd er mwyn i sefydliadau trydydd sector gefnogi gofalwyr o bob oed.

Effaith Covid-19

Mae Covid-19 wedi cael effaith ar lesiant llawer o **ofalwyr** sydd wedi bod yn pryderu am ddal yr afiechyd a'i drosglwyddo i'r rhai sy'n cael gofal ganddyn nhw. Mae **gofalwyr** hefyd wedi wynebu pwysau ychwanegol oherwydd effaith y pandemig ar y gwasanaethau maen nhw'n eu defnyddio fel arfer.

I rai gofalwyr, mae cau cyfleoedd seibiant/egwyl, fel canolfannau dydd, ysgolion, grwpiau cymunedol neu wasanaethau eistedd gyda phobl dros nos, wedi gwneud eu rôl ofalu yn fwy anodd.

Derbyniodd rhai gofalwyr fwy o gyfrifoldebau gofalu oherwydd pryderon am weithwyr gofal yn dod i'r cartref ac yn lledaenu Covid-19 o bosibl. Mae gofalwyr eraill wedi bod yn pryderu ynghylch cael asesiad o anghenion gofalwyr, ac wedi cael trafferth i sicrhau bwyd neu foddion.

Allwch chi ddweud wrthyn ni sut mae Covid-19 wedi effeithio ar eich bywyd fel gofalwr?



Beth, yn eich barn chi, dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i roi gwell cefnogaeth i ofalwyr di-dâl mae Covid-19 yn effeithio arnyn nhw, yn awr ac os bydd cynnydd eto yn nifer yr achosion o'r haint?

Gofalwyr ifanc ac oedolion ifanc sy'n ofalwyr

Mae tua 30,000 o ofalwyr dan 25 oed yng Nghymru, ond mae'n debygol bod mwy na hynny nawr ers i Covid-19 ddechrau.

Gall gofalwyr ifanc wynebu nifer o heriau, fel

- anawsterau yn yr ysgol ac o ran gwneud gwaith cartref
- peidio â chael digon o amser i weld ffrindiau
- poeni am y rhai maen nhw'n gofalu amdanyn nhw
- teimlo'n wahanol i bobl ifanc eraill
- pobl eraill ddim yn deall sut brofiad yw bywyd gofalwr ifanc yng Nghymru heddiw

Mae oedolion ifanc sy'n ofalwyr hefyd yn wynebu llawer o heriau, fel

- Jyglu eu cyfrifoldebau gofalu â'r ysgol, y coleg, y brifysgol neu'r gwaith



- Chwilio am waith neu hawlio budd-daliadau
- Dechrau perthynas neu feddwl am adael cartref

Beth yw'r prif heriau rydych chi'n eu hwynebu gofalwr ifanc neu oedolyn ifanc sy'n ofalwr?

Pa gymorth ychwanegol fyddai'n eich helpu chi fel gofalwr ifanc neu oedolyn ifanc sy'n ofalwr?



Gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a dyletswyddau cydraddoldeb eraill sy'n benodol i Gymru, rydyn ni am nodi beth gallwn ni ei wneud i ddileu rhwystrau a gwella cyfranogiad a chanlyniadau i bobl sy'n cael eu tangynrychioli - gan gynnwys pobl â nodweddion gwarchoddedig - y gall fod angen cefnogaeth wahanol arnyn nhw

Mae nodweddion gwarchoddedig yn gallu cynnwys:

- oed
- anabledd
- priodas a phartneriaeth sifil
- ailbennu rhywedd
- beichiogrwydd a mamolaeth
- hil
- crefydd neu gred
- rhyw
- cyfeiriadedd rhywiol

Rydyn ni eisiau deall sut gallai fod angen mathau penodol o gymorth ar ofalwyr â nodweddion gwarchoddedig.

Er enghraifft - mae Covid-19 wedi dangos bod y coronafeirws yn achosi mwy o risg i iechyd pobl o gefndiroedd Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME). Mae'n bwysig ein bod ni'n deall sut mae eu profiadau gofalu yn gallu helpu i lywio'r cynllun newydd hwn.



Beth dylai'r cynllun newydd ei wneud i gefnogi gofalwyr â nodweddion gwarchoddedig?

Y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer gofalwyr

Mae'r cynllun newydd yn cael ei gefnogi gan y tair blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gofalwyr y gwnaethon ni eu datblygu yn 2017. Bydd y safbwyntiau byddwn ni'n eu casglu o'r ymgynghoriad hwn yn ein helpu ni i weld sut gall y blaenoriaethau hyn gael eu gwella er mwyn i amrywiaeth gofalwyr a'u profiadau personol yng Nghymru gael eu cynrychioli'n well.

Y tair blaenoriaeth ar hyn o bryd yw:

Blaenoriaeth 1 Adnabod a chydabod gofalwyr

Mae pob gofalwr yn haeddu cael eu hadnabod a'u cefnogi i barhau i ofalu.

Blaenoriaeth 2 Helpu i fyw yn ogystal â gofalu

Rhaid i bob gofalwr gael seibiannau rhesymol o'u rôl ofalu er mwyn iddynt allu parhau i ddarparu gofal a chael bywyd y tu hwnt i'w rôl ofalu.

Blaenoriaeth 3 Darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth

Mae'n bwysig bod pob gofalwr yn cael yr wybodaeth a'r cyngor cywir mewn ffurf briodol pan fydd angen hynny arnyn nhw



Beth yw eich barn chi am y tair blaenoriaeth hyn?

Ydych chi'n meddwl dylai unrhyw eiriau gael eu newid? Ydych chi'n meddwl bod rhywbeth ar goll a ddylai gael ei ychwanegu?

Nawr rydyn ni am ychwanegu pedwaredd flaenoriaeth:

Blaenoriaeth 4 Cefnogi gofalwyr mewn addysg ac yn y gweithle

Dylai cyflogwyr a lleoliadau addysg/hyfforddiant gael cefnogaeth i addasu eu polisïau a'u harferion i alluogi gofalwyr i weithio a dysgu ochr yn ochr â'u rôl ofalu.

Beth yw eich barn chi am y flaenoriaeth newydd yma?



Ydych chi'n meddwl y dylai unrhyw eiriau gael eu newid? Ydych chi'n meddwl bod rhywbeth ar goll a ddylai gael ei ychwanegu?

Siarter ar gyfer Gofalwyr

Rydyn ni am greu Siarter Gofalwyr.

Bydd y Siarter hon yn ganllaw arfer da ac yn amlygu rolau a chyfrifoldebau'r canlynol yn glir

- Llywodraeth Cymru
- Awdurdodau Lleol
- Byrddau Iechyd Lleol
- Sefydliadau Trydydd Sector
- Gofalwyr

Bydd y Siarter yn adnodd dibynadwy ar gyfer pobl sy'n ceisio cefnogi gofalwyr.

Ydych chi'n meddwl bod Siarter Gofalwyr yn syniad da?



Ydych chi'n meddwl byddai Siarter Gofalwyr yn helpu i wella sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a sut mae cael mynediad iddyn nhw?

Ac yn olaf ...

Hoffech chi rannu unrhyw beth arall gyda ni i'n helpu ni i ysgrifennu'r cynllun newydd?



Diolch am ddarllen hwn

Atebwch y cwestiynau a'u hanfon yn ôl aton ni i'r cyfeiriad yma:

Tîm Pobl Hŷn a Gofalwyr

Y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Llywodraeth Cymru

Adeiladau'r Goron

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: OlderPeopleandCarers@gov.wales

erbyn **20 Ionawr 2021**

Eich gwybodaeth

Bydd popeth rydych chi'n ei anfon atom yn cael ei weld gan staff Llywodraeth Cymru yn unig ac ni fyddwn yn cyhoeddi eich manylion. Gwneir hyn o dan y Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR).

